

## **Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categoriâu Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023**

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt technegol hwn, ond rydym o'r farn bod ystyr y termau o dan sylw yn ddigon clir fel na fyddai'r darllenydd yn cael ei gamarwain.

Pwynt Craffu Technegol 2: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod dyblygu diangen mewn perthynas â'r cofnodion a nodir. Er nad oes perygl i'r gwall gamarwain y darllenydd, bydd y mater yn cael ei gywiro pan gaiff y Gorchymyn ei ddiwygio nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno bod dulliau drafftio ychydig yn wahanol wedi eu defnyddio. Nid ydym o'r farn y bydd y darllenydd yn cael ei gamarwain gan fod yr effaith gyfreithiol yn glir ac yn gywir. Nid ydym yn bwriadu diwygio'r darpariaethau hyn ond byddwn yn cofio am hyn ar gyfer unrhyw newidiadau i'r Gorchymyn yn y dyfodol.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt craffu ar rinweddau, ond mae Llywodraeth Cymru wedi ei bodloni bod y teitl yn rhoi disgrifiad digonol o natur yr offeryn statudol. Mae'r Gorchymyn yn mewnosod sawl categori newydd o weithwyr y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â'r CGA ac mae'r diwygiadau a wneir i gategoriâu o weithwyr cofrestredig sydd eisoes yn bodoli yn gymharol fân, gan roi gwell eglurder i ofynion sydd eisoes yn bodoli. Nid oes gofyniad bod rhaid i'r teitl ddisgrifio'n llawn bob darpariaeth a wneir gan yr offeryn statudol ac felly mae Llywodraeth Cymru wedi ei bodloni bod y teitl, at ei gilydd, yn adlewyrchu'r hyn y mae'r Gorchymyn yn ei wneud yn ddigonol.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt craffu ar rinweddau. Nid oes bwriad i ddiwygio'r diffiniadau "gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach" na "gweithiwr cymorth ieuenctid". Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn nad yw'n arfer orau mabwysiadu ffurf wahanol ar eiriau i gyfleu yr un cysyniad. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn achosi digon o ansicrwydd i fod angen ei gywiro, ond byddwn yn cofio am hyn wrth ddiwygio'r OS yn y dyfodol.